Cyllid & Tollau EM

# Gwirio eich hysbysiad o ddyfarniad credydau treth

Mae'r rhestr wirio hon i'w defnyddio gennych chi i'ch helpu i sicrhau bod yr wybodaeth ar eich hysbysiad o ddyfarniad ynglŷn â'ch amgylchiadau personol yn gywir ac yn gyflawn. **Peidiwch â'i hanfon atom ni.**

Mae'r cwestiynau'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Os oes rhywbeth yn anghywir, ar goll neu'n anghyflawn mae'n rhaid i chi ddweud wrthym **o fewn 30 diwrnod** i dderbyn eich hysbysiad o ddyfarniad neu gellid gofyn i chi ad-dalu gordaliad.

Os daeth cyfnod y dyfarniad i ben ar neu cyn 5 Ebrill 2012, gwiriwch eich amgylchiadau fel yr oeddent ar y dyddiad y daeth y cyfnod i ben. Fel arall, gwiriwch eich amgylchiadau fel y maent ar hyn o bryd.

Os bydd taliadau gostyngol yn golygu na allwch dalu treuliau byw hanfodol megis rhent, biliau nwy neu drydan, cysylltwch â ni.

| Os dangosir y manylion canlynol ar eich hysbysiad o ddyfarniad, a ydynt yn gywir? | YDYN | NAC YDYN |
|---|---|---|
| Eich enw a'ch cyfeiriad? *Dywedwch wrthym os yw'r naill neu'r llall wedi newid.* | | |
| **Hawlwyr** | | |
| Pa un a ydych yn hawlio fel unigolyn neu gwpl? *Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os yw hyn wedi newid - gweler tudalen 2.* | | |
| Yr oriau rydych yn eu gweithio yr wythnos? *Dywedwch wrthym os yw'ch oriau wedi newid - gweler tudalen 2.* | | |
| Pa un a ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm neu Gredyd Pensiwn? | | |
| Os ydych yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd, a ddangosir hyn? | | |
| Os ydych yn cael y Gyfradd Uchaf o Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu Gyfradd Uchaf y Lwfans Gweini, a ddangosir hyn? | | |
| **Plant a phobl ifanc cymwys** | | |
| Nifer y plant 16 mlwydd oed ac iau? | | |
| Nifer y pobl ifanc rhwng 16 mlwydd oed ac 20 mlwydd oed mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy? *Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os yw hyn wedi newid - gweler drosodd.* | | |
| Nifer y plant sy'n gymwys ar gyfer yr elfen anabledd? | | |
| Nifer y plant yr ydych yn cael y Gyfradd Uchaf o Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar eu cyfer? | | |
| **Costau gofal plant** | | |
| Nifer y plant yr ydych yn defnyddio darparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy ar eu cyfer? | | |
| Eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog? *Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os yw'r rhain wedi newid - gweler tudalen 2.* | | |
| **Incwm** | | |
| Cyfanswm eich incwm am bob blwyddyn dreth a dangosir? *Dywedwch wrthym ar unwaith os bydd eich incwm cyfredol yn newid fel y gallwn sicrhau y telir y swm cywir o gredydau treth i chi - gweler tudalen 2.* | | |
| **Manylion cyfrif** | | |
| A yw'r manylion cyfrif a ddangosir yn gywir? | | |
| A yw'r taliadau sy'n mynd i mewn i'ch cyfrif yn cyfateb â'r taliadau a ddangosir ar eich hysbysiad o ddyfarniad? | | |

**Cysylltwch â ni ar unwaith os ydych wedi ateb NAC YDYN i unrhyw un o'r cwestiynau uchod.**

Cadwch y ffurflen hon ar gyfer eich cofnodion, **peidiwch** â'i dychwelyd atom ni.

## A yw eich taliadau wedi gostwng?

Efallai ein bod wedi addasu eich taliadau er mwyn osgoi talu gormod i chi eleni, neu er mwyn adennill gordaliad o flwyddyn flaenorol. Os gwnawn hyn, efallai y byddwn yn cyfyngu ar y swm a gasglwn er mwyn osgoi achosi caledi ariannol i chi. Mae ein Cod Ymarfer 26 *Beth fydd yn digwydd os byddwn wedi talu gormod o gredydau treth i chi?* yn dweud wrthych sut a phryd y gwnawn, neu na wnawn gasglu gordaliadau. Gallwch gael copi drwy ein ffonio, neu ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/cop26.pdf**

Cysylltwch â ni

- os nad ydych yn deall pam mae'ch taliadau wedi gostwng, neu
- os dangosir gordaliad ar yr hysbysiad o ddyfarniad a chredwch na ddylech orfod ei ad-dalu am eich bod wedi cyflawni'ch cyfrifoldebau chi ond nid oeddem wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ni, neu
- os yw'r gostyngiad yn eich taliadau yn golygu na allwch dalu treuliau byw hanfodol megis rhent, biliau nwy neu drydan, cysylltwch â ni. Efallai y gallwn wneud taliadau ychwanegol.

## Newidiadau y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcreditschanges**

Rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau canlynol **o fewn 1 mis**.

Rhaid i chi ddweud wrthym os ydych wedi hawlio:

- **fel unigolyn** ond rydych bellach yn briod neu mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- **ar y cyd gyda'ch partner** ond rydych wedi gwahanu neu mae'ch partner wedi marw.

### Costau gofal plant

Os ydych wedi hawlio costau gofal plant, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym:

- os yw eich costau yn peidio neu'n gostwng £10 yr wythnos neu fwy
- os nad ydych yn defnyddio darparwr cofrestredig neu gymeradwy mwyach, neu
- os ydych yn dechrau defnyddio perthynas i ofalu am eich plant gartref
- os ydych yn dechrau derbyn cymorth ar gyfer eich costau gofal plant gan eich cyflogwr, megis talebau gofal plant neu unrhyw gynllun aberthu cyflog arall.

Ffoniwch ni am gyngor.

### Gadael y Deyrnas Unedig (DU)

Rhaid i chi ddweud wrthym os ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un:

- yn gadael y Deyrnas Unedig am byth
- yn mynd dramor am gyfnod dros dro o 8 wythnos neu fwy (neu am fwy na 12 wythnos os byddwch yn mynd dramor am fod aelod o'ch teulu yn sâl neu wedi marw)
- yn colli eich hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig.

### Oriau gwaith

Rhaid i chi ddweud wrthym:

- os ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl neu os cewch eich diswyddo
- os ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn gweithio ac mae eich oriau yn gostwng o dan 16 awr yr wythnos
- os ydych chi a'ch partner, os oes gennych un, yn gwpl sy'n gyfrifol am blentyn, ac mae eich oriau ar y cyd yn disgyn o dan 24 awr yr wythnos, ond mae'n rhaid i un ohonoch weithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- os ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn gweithio 30 awr neu fwy'r wythnos ac mae eich oriau'n disgyn o dan 30 (mae oriau ar y cyd yn cyfrif ar gyfer cyplau gyda phlant)
- os ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, wedi bod ar streic am fwy na 10 diwrnod yn olynol
- os ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn gadael eich swydd ac mae bwlch o fwy na 7 diwrnod cyn dechrau mewn swydd arall.

### Plant a phobl ifanc

Rhaid i chi ddweud wrthym os yw plentyn neu berson ifanc:

- yn symud i fyw gyda rhywun arall
- yn dechrau hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith iddynt hwy eu hunain
- yn marw.

Rhaid i chi ddweud wrthym hefyd os yw person ifanc rhwng 16 ac 20 oed:

- yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy
- yn dechrau addysg uwch, er enghraifft cwrs gradd
- yn dechrau hyfforddiant a roddir o dan gontract cyflogaeth
- yn dechrau gwaith â thâl am 24 awr neu fwy'r wythnos ac nid yw ef/hi mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch.

## Newidiadau eraill y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

Nid oes rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau canlynol, ond bydd o fudd i chi ddweud wrthym o fewn un mis am eu bod yn gallu cynyddu faint o gredydau treth sy'n ddyledus i chi neu efallai y telir gormod i chi.

Dywedwch wrthym:

- os yw person ifanc dros 16 oed yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, yn ymuno â chynllun hyfforddi cymeradwy neu'n cofrestru â gwasanaeth gyrfâu, Connexions, y Weinyddiaeth Amddiffyn neu sefydliad tebyg o fewn yr UE. Os nad ydych yn dweud wrthym, bydd y Credyd Treth Plant ar eu cyfer yn dod i ben ar 1 Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed
- os bydd eich incwm yn gostwng gan fwy na £2500
- os bydd eich incwm yn cynyddu. Efallai na fydd hyn yn effeithio ar eich credydau treth cyfredol, ond bydd yn effeithio ar y swm y dylem ei dalu i chi y flwyddyn nesaf. Os talwn ormod i chi am eich bod yn oedi cyn dweud wrthym am unrhyw newidiadau, gofynnir i chi ad-dalu unrhyw gredydau treth a ordalwyd
- os yw eich costau gofal plant yn cynyddu £10 neu fwy yr wythnos
- os yw eich oriau gwaith arferol yn newid o fod yn llai nag 16 awr yr wythnos i fod yn 16 awr neu fwy
- os yw eich oriau gwaith arferol yn newid o fod yn llai na 30 awr yr wythnos i fod yn 30 awr neu fwy. Ar gyfer cyplau gyda phlant, eich oriau gwaith ar y cyd sy'n cyfrif tuag at y 30 awr
- os ydych yn gwpl gyda phlant ac mae eich oriau gwaith ar y cyd yn cynyddu i 24 awr neu fwy'r wythnos.

## A ydych yn cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor?

Caiff eich taliadau credydau treth eu hystyried wrth gyfrifo'r budd-daliadau hyn. Cysylltwch â'ch Swyddfa Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor bob tro y cewch hysbysiad o ddyfarniad fel y gallant ailasesu eich budd-dal.

## Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Os credwch fod rhywbeth ar eich hysbysiad yn anghywir neu ar goll, cysylltwch â ni ar unwaith a byddwn yn datrys y broblem heb orfod cychwyn apêl. Os na allwn ddatrys eich problem ac os nad ydych yn fodlon mae hawl gennych o hyd i apelio. Mae'n rhaid cyflwyno apeliadau ffurfiol yn ysgrifenedig o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad o ddyfarniad.

I gael mwy o wybodaeth:

- ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/wtc_ap.pdf neu**
- ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan *Quick links* dewiswch *Complaints & appeals* **neu**
- ffoniwch ein Llinell Gyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900** a gofynnwch am *Beth i'w wneud os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir* (WTC/AP).



L23491